OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 413

## Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016

*Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 (p. 41)*

**38.** Mae Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

**39.** Yn adran 17 (ffioedd am wasanaethau awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr)—

(a) hepgorer is-adrannau (2A)(**1**) a (5);

(b) ym mharagraff (a) o is-adran (3) hepgorer "or a service within subsection (2A)(**2**)";

(c) ym mhennawd yr adran, hepgorer y geiriau "and Wales".

**40.** Yn adran 22 (ôl-ddyledion cyfraniadau a godir ar fuddiant mewn tir yng Nghymru a Lloegr)—

(a) ar ôl is-adran (2B)(**3**) mewnosoder—

"(2C) A local authority in Wales may not create, or be required by directions under subsection (2A) to create, a charge under this section on or after the day on which section 2 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 came into force.";

(b) ar ôl is-adran (3A)(**4**) mewnosoder—

"(3B) Subject to subsection (5) below, a charge under this section created by a local authority in Wales shall be in respect of any amount which is outstanding from time to time and is—

(a) assessed as due to be paid by the person to the authority for the Part III accommodation, or

(b) due by the person to the authority under Part 5 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 in respect of meeting needs for care and support by the provision of accommodation for the person, including anything provided in connection with that accommodation.";

(c) yn is-adran (4)(**5**), hepgorer "Wales or".

(**1**) Mewnosodwyd adran 17(2A), o ran Cymru, gan adran 14(1) a (4) o Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010.
(**2**) Diwygiwyd adran 17(3)(a) gan baragraffau 30 ac 31(1) a (4) o'r Atodlen i O.S. 2015/914.
(**3**) Mewnosodwyd adran 22(2B) gan baragraffau 30 a 32(1) a (2) o'r Atodlen i O.S. 2015/914.
(**4**) Mewnosodwyd adran 22(3A) gan baragraffau 30 a 32(1) a (3) o'r Atodlen i O.S. 2015/914.
(**5**) Diwygiwyd adran 22(3) gan baragraffau 30 a 32(1) a (4) o'r Atodlen i O.S. 2015/914.